## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 12.11.08

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Ieuan Roberts, (Cadeirydd); Dewi Llewelyn a Peter Read.

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W. Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Sion Huws, ( Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Alwyn Thomas, (Swyddog Gorfodi Trwyddedau), ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu, Yr Arolygydd Keith Ellis.

**Cynrychiolydd Deilydd y Drwydded :** Mr Richard Taylor, Gosschalks Solicitors.

**Rheolwr Lleol Deilydd y Drwydded:** Mr Wyn Hughes.

**Aelod lleol:** Y Cynghorydd Bob Anderson.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Gwilym Williams.

**Defnydd o'r Iaith Gymraeg**

Mynegwyd siom gan y Cadeirydd o weld cyn lleied o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Iaith Gymraeg o fewn y rhaglen. Ychwanegodd fod Prif Arolygydd Gogledd Cymru wedi cefnogi'r Iaith a'i bod yn siom gweld adroddiad yr heddlu'n cael ei chyflwyno'n uniaith Saesneg.

### 1. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED EIDDO MORGAN LLOYD VAULTS, Y MAES, CAERNARFON

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais yr Heddlu am adolygu Trwydded Eiddo Morgan Lloyd Vaults, Y Maes, Caernarfon.

Cyfeiriwyd at adroddiad ac argymhellion oedd yn cael eu gwneud gan yr heddlu, a chadarnhawyd bod y Cyngor wedi ymgynghori gydag Uned Safonau Masnach Cyngor Gwynedd a Chyngor Tref Caernarfon.

'Roedd yr Uwch Swyddog Safonau Masnach yn cytuno â'r awgrymiadau a wnaed gan yr Heddlu. 'Roedd y Cyngor Tref yn cefnogi awgrym i ddiddymu trwydded y Morgan Lloyd Vaults dros dro.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- i) Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Drwyddedu gydag argymhelliad
- ii) Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar y cais
- iii) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd
- iv) Gwahoddwyd pob ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- v) Rhoddwyd cyfle i ddeilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd ymateb i'r sylwadau
- vi) Cafodd yr ymgeisydd a chynrychiolydd deilydd y drwydded gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gyflwyno achos yr Heddlu, eglurodd y Cydlynydd Trwyddedu eu bod wedi cynnal trafodaethau gyda deilydd y drwydded, Enterprise Inns, a'u bod wedi dod i gytundeb o safbwynt amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu.

O ystyried bod yr Heddlu a Deilydd y Drwydded yn gytûn, penderfynodd aelodau'r Is-bwyllgor nad oedd angen cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yr Heddlu a ddarparwyd wrth wneud y cais am adolygu'r Drwydded Eiddo.

Yn wreiddiol 'roedd yr Heddlu am i'r Is-bwyllgor ystyried diddymu'r Drwydded Eiddo, neu ei diddymu dros dro er ychwanegu nifer o amodau gorfodol. O ganlyniad i'r trafodaethau nid oeddynt am i'r camau yma gael eu cymryd, ond, fel ag y gwnaed wrth gyflwyno'r cais, rhestrwyd pedwar o amodau ganddynt sef:

- Bod y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn hwyluso ymweliadau'r Heddlu â'r dafarn ac yn arbennig bydd yn sicrhau cydweithrediad llawn bob aelod o'r staff
- Cydymffurfio'n llawn gyda'r holl amodau sydd eisoes wedi eu gosod gyda'r drwydded
- Bod Deilydd y Drwydded yn sicrhau eu bod hwy a holl aelodau'r staff wedi eu hyfforddi'n llawn i ymdrin â gofynion 'Her 21' , sef yr angen i bawb sy'n edrych yn ieuengach na 21 gael cerdyn adnabod.
- Bod y man tu allan i'r eiddo lle gall cwsmeriaid tafarn Morgan Lloyd ei defnyddio, yn cael ei dynodi'n glir gyda ffiniau pendant, a bod goruchwyliaeth gyson yno gan staff sydd wedi eu hyfforddi fel y gellir osgoi troseddau ac anhrefn a sicrhau bod rheolau'r mannau lle na ellir yfed yn cael eu derbyn yn llawn.

O ystyried y sefyllfa ymhellach, galwodd yr Heddlu ar i'r Is-bwyllgor addasu'r drydedd amod i sicrhau mai'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig fyddai'n sicrhau ei fod ef a holl aelodau'r staff wedi eu hyfforddi'n llawn i ymdrin â gofynion 'Her 21'.

Wrth ymateb i'r sylwadau, diolchodd cynrychiolydd Deilydd y Drwydded i'r Heddlu am eu cydweithrediad a chadarnhaodd fod yr holl amodau a nodwyd yn dderbyniol. Ychwanegodd bod Goruchwiliwr Eiddo Dynodedig bellach yn derbyn hyfforddiant, a galwodd ar i'r Is- bwyllgor ganiatáu cyfnod o chwe wythnos ar gyfer i Ddeilydd y Drwydded gwblhau'r holl newidiadau angenrheidiol.

Mewn ymateb i'r cais yma, dywedodd Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu y byddai'r Heddlu'n awyddus i bopeth gael ei wneud i gyfarfod â'r cyfan o'r amodau cyn y Nadolig.

Wrth drafod y cais, rhoddwyd ystyriaeth benodol i dair egwyddor o fewn y Ddeddf, sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus

'Roedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod cyfnod o chwe wythnos ar gyfer cwblhau'r newidiadau'n ormodol, yn arbennig o gofio y byddai hyn yn arwain at ddathliadau'r Nadolig. Ychwanegwyd y byddai'n rhaid cael Goruchwiliwr Eiddo Dynodedig yn gyfrifol am y dafarn gydol y cyfnod, a byddai'n rhaid i'r cwmni gael un o fan arall i wneud y gwaith pe byddai angen.

Cytunwyd y byddai'n rhesymol caniatáu cyfnod o dair wythnos fel y gall yr Enterprise Inns benodi Goruchwiliwr Eiddo Dynodedig dros dro hyd nes bod y GED parhaol a benodwyd wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol a derbyn trwydded bersonol.

**PENDERFYNWYD:**

i) **Bod y Goruchwiliwr Eiddo Dynodedig yn hwyluso ymweliadau'r Heddlu â'r dafarn ac yn arbennig bydd yn sicrhau cydweithrediad llawn bob aelod o'r staff**

ii) **Cydymffurfio'n llawn gyda'r holl amodau sydd eisoes wedi eu gosod gyda'r drwydded**

iii) **Bod y Goruchwiliwr Eiddo Dynodedig yn sicrhau ei fod ef a holl aelodau'r staff wedi eu hyfforddi'n llawn i ymdrin â gofynion 'Her 21', sef yr angen i bawb sy'n edrych yn ieuengach na 21 gael cerdyn adnabod.**

iv) **Bod y man tu allan i'r eiddo lle gall cwsmeriaid tafarn Morgan Lloyd ei defnyddio, yn cael ei dynodi'n glir gyda ffiniau pendant, a bod goruchwyliaeth gyson yno gan staff sydd wedi eu hyfforddi fel y gellir osgoi troseddau ac anhrefn a sicrhau bod rheolau'r mannau lle na ellir yfed yn cael eu derbyn yn llawn.**

v) **Bod yr Heddlu a Deilydd y Drwydded yn cynnal trafodaethau ac yn cyrraedd cytundeb cyn 5 Rhagfyr, 2008, o safbwynt y man tu allan i'r dafarn lle gall cwsmeriaid yfed**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol y byddai'n ceisio i anfon llythyr o fewn tri diwrnod yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor a hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor, o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 11:10am